# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 28 Medi 2020

Amser: 10.00 - 11.01

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6468

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)609 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 2.2 SL(5)618 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)608 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) (2020)

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)610 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (2020)

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(5)617 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (2020)

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(5)614 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad pellach ynghylch yr amserlen ar gyfer gosod y rheoliadau.

### 3.5 SL(5)583 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn. Cytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion sy’n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 3.6 SL(5)615 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) (Rhondda Cynon Taf) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch ei chanllawiau cyhoeddedig ar gyfyngiadau sy’n gysylltiedig â choronafeirws.

### 3.7 SL(5)616 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch pam ei bod yn angenrheidiol i’r

rheoliadau ddod i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd, sy'n un o ofynion Deddf Offerynnau Statudol 1946.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 4.1 SL(5)588 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) (2020)

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 5.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr a Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 5.3 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth mewn perthynas â Bil Marchnad Fewnol y DU.

### 5.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Craffu ar drefniadau ymadael â'r UE

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 7 Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) a chytunodd i gadarnhau'r trefniadau terfynol y tu allan i'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 2 Hydref 2020.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol - trafod materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cam-drin Domestig - trafod materion allweddol

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Cam-drin Domestig, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 10 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cynllun y Taliad Sylfaenol a fframwaith deddfwriaethol cymorth gwledig o 2021 ymlaen - trafod yr ymateb

Trafododd y Pwyllgor ymhellach y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunodd ar y pwyntiau i'w cynnwys yn ei ymateb.

## 11 SICM(5)29 – Rheoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 – trafod yr adroddiad drafft

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Gwastraff (Economi Gylchol) (Diwygio) 2020 a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai ei adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 29 Medi 2020.